AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK AUTHORITY

Datganiad i'r Wasg

Dydd Mercher, 3 Mehefin, 2015

APÊL AM WIRFODDOLWYR

Mae hi'n wythnos gwirfoddolwyr yr wythnos hon, sy'n gyfle gwych i ddathlu cyfraniad anhygoel mae gwirfoddolwyr yn ei wneud i waith y Parc Cenedlaethol ..... ac i apelio am fwy!

Gwelir Llysiau'r Dial fel arfer ar lannau afonydd. Mae'n blanhigyn ymledol sy'n fygythiad i fioamrywiaeth a gall achosi difrod helaeth i ffyrdd, tai ac isadeileddau eraill. Ar hyn o bryd, does dim modd mesur maint y broblem yn y Parc ac er mwyn ei reoli mae angen gwybod faint ohono sydd yn y Parc - lle mae i'w gael ynghyd â'i ddwyster. Un o'r cynlluniau diweddaraf mae staff yr Awdurdod yn gweithio arno yw datblygu ap ffôn i hwyluso'r gwaith o gwblhau arolygon ar Lysiau'r Dial.

Carwyn ap Myrddin, Swyddog Cadwraeth Fferm yr Awdurdod sy'n esbonio ymhellach.

> "Mae cwmni COBWEB eisoes wedi dechrau ar y gwaith o ddatblygu'r ap ond bellach rydan ni wedi cyrraedd y pwynt lle mae angen ei dreialu. Felly, rydan ni wedi trefnu dau ddigwyddiad fydd yn ein helpu i weld os yw'n gweithio! Ar Orffennaf y 7fed a'r 8fed mi fyddwn ni'n ei dreialu o amgylch basn Afon Conwy gan ddechrau ym Metws y Coed ac yna ar y 25 a'r 26ain o Awst, dechrau o amgylch basn y Fawddach yn ardal Dolgellau.
>
> Yn ogystal â'r ap, mae'n fwriad i ddatblygu tudalen ar wefan yr Awdurdod lle bydd modd rhoi gwybodaeth ynglŷn â lleoliad rhywogaethau ymledol a'r gobaith yw y bydd yn barod erbyn mis Awst. Yn y cyfamser fodd bynnag, rydan ni angen cyflawni'r gwaith o dreialu'r ap. Fe fydd gennym oddeutu 15 o ffonau symudol a thabledi i'w defnyddio ar gyfer y gwaith arbrofol hwn, felly byddai'n dda gallu cael gwirfoddolwyr i'w defnyddio!"

Oni bai am wirfoddolwyr, mae'n siwr na fyddai llawer o waith y Parc Cenedlaethol yn cael ei gyflawni.

- Yng nghoedlan Hafod y Bryn yn Llanbedr, bu gwirfoddolwyr Lleol yn helpu i glirio hen goed a gordyfiant
- Yn Nolgellau, bu plant o Dŷ Meirion Ysgol y Gader yn plannu coed
- Yn ardal Beddgelert, bu disgyblion o Ysgol uwchradd Dyffryn Nantlle ac aelodau o Gymdeithas Eryri yn helpu i waredu'r rhododendron ponticum a phlannu coed yn eu lle
- Ym Mlwch Signal Llyn Penmaen mae gwirfoddolwyr ar gael i roi gwybodaeth ac i roi cyngor i ymwelwyr ar fioamrywiaeth yr ardal gyfagos
- Ar yr Wyddfa mae gwirfoddolwyr yn helpu i glirio sbwriel ac i addysgu ymwelwyr am amgylchedd y mynydd.
- Ym Mhlas Tan y Bwlch bu gwirfoddolwyr o GISDA yn helpu i blannu coed.
- Mae myfyrwyr o Golegau Llysfasi a Glynllifon wedi bod yn gwrifoddoli gyda'r Awdurdod hefyd yn gwaredu'r *rhododendron ponticum* ac yn plannu coed newydd yn eu lle.

Ond mae'r Awdurdod yn awyddus i gydweithio gyda mwy o bobl. Felly, os oes gan rywun ddiddordeb i wirfoddoli wrth dreialu'r ap newydd ym Metws y Coed ymhen y mis, cysylltwch â Carwyn ap Myrddin ar 01766 770274 neu Carwyn.apMyrddin@eryri-npa.gov.uk.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK AUTHORITY

Press Release

Wednesday, 3 June 2015

APPEAL FOR VOLUNTEERS

It's Volunteers Week this week, which is a great opportunity to celebrate the incredible contribution volunteers make to the work of the National Park... and to appeal for more!

Japanese Knotweed can usually be seen on river banks, road verges and railway embankments. It is classed as an invasive plant, which threatens biodiversity and can cause extensive damage to roads, houses and other infrastructures. There is no way at present to measure the size of the problem in the National Park, and in order to be able to manage it we need to know how much of it is in the Park; its locations and density. One of the latest projects that Authority staff have undertaken is to develop a smartphone app, which will allow volunteers to contribute to surveys on the presence of Japanese Knotweed.

Carwyn ap Myrddin, the Authority's Farm Conservation Officer explains further,

> "A European project called COBWEB (cobwebproject.eu) has already started on the development of the app but we've now reached the point where it needs to be piloted. We have therefore organised two events which will help us to see if it works! On July 7th and 8th we will be piloting the app around the Conwy River basin starting in Betws y Coed and then on the 25th and 26th August, starting around the Mawddach basin in the Dolgellau area.
>
> In addition to the app, a page on the Authority's website is being developed where people can also provide information about the location of invasive species and it is hoped that it will be ready by August. In the meantime however, we need to carry out the work required to pilot the app. COBWEB will be supplying 15 mobile phones and tablets to use for this experimental work, so it would be good to get volunteers on board to use it! "

If it wasn't for volunteers, a fair amount of the National Park's work would not be completed.

- At Bryn Hafod Woodland in Llanbedr, local volunteers have been helping to clear old trees and overgrowth
- In Dolgellau, children from Tŷ Meirion Ysgol y Gader have been planting trees
- Pupils from Ysgol Dyffryn Nantlle and members of the Snowdonia Society have been helping to replace *rhododendron ponticum* with new trees in Beddgelert.
- At the Signal Box in Penmaenpool, volunteers are available to provide information and advice to visitors regarding the biodiversity of the surrounding area
- On Snowdon, volunteers help to clear rubbish and educate visitors about the mountain and its environment.
- At Plas Tan y Bwlch, volunteers from GISDA have been helping to plant trees.
- Students from Llysfasi and Glynllifon Colleges have been volunteering with the Authority in eradicating *rhododendron ponticum* and replacing them with new trees.

However, the Authority would like to work with more people. Therefore, if anyone is interested in volunteering with piloting the new app in Betws y Coed later this month, contact Carwyn ap Myrddin on 01766 770274 or Carwyn.apMyrddin@eryri-npa.gov.uk.